WHC/2022/025

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 16 Rhagfyr 2022

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL**

**Teitl:** Canllawiau Cymru gyfan ar gyfer y bwlch rhwng presgripsiynau

**Dyddiad dod i ben / Adolygu:** 2 Rhagfyr 2025

**I'w weithredu gan:**
Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
Byrddau Iechyd Lleol
**cc:** Prif Fferyllwyr, Cyfarwyddwyr Meddygol

**Anfonir gan:** Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

**Angen gweithredu erbyn:** Ar unwaith

**Enw(au) cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

Darren Ormond, Fferylliaeth a Rhagnodi, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Rhif ffôn: 03000 255621

Martyn Shipp, Rheolwr Polisi Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Rhif ffôn: 03000 256638

**Canllawiau Cymru gyfan ar gyfer y bwlch rhwng presgripsiynau**

**Cefndir**

1. Yn 2010, cyflwynwyd targed i annog symud tuag at ragnodi 28 diwrnod fel rhan o'r mesurau Cynhyrchedd ac Effeithlonrwydd yn Fframwaith Gweithredu Blynyddol GIG Cymru ar gyfer 2010-11.

2. Ym mis Chwefror 2013, cyhoeddodd Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan *Ganllawiau Cymru gyfan ar gyfer y bwlch rhwng presgripsiynau*. Roedd y canllawiau'n cynnwys yr argymhelliad:

    *Argymhellir yn fras bod bwlch 28 diwrnod rheolaidd rhwng presgripsiynau; fodd bynnag, dylid defnyddio disgresiwn ar gyfer cleifion unigol neu feddyginiaethau. Dylai hyn gael ei gyplysu â phroses adolygu meddyginiaethau drylwyr ac effeithiol.*

3. Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddwyd yr adolygiad annibynnol o lefelau dosbarthu mewn fferyllfeydd cymunedol, a gynhaliwyd gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, gan gefnogi dichonoldeb lleihau'r lefel o bresgripsiynau sy'n cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd cymunedol drwy newidiadau ymarferol, ar lefel system i drefniadau rhagnodi a dosbarthu.

4. Roedd camau allweddol yn yr ymateb yn cynnwys yr angen i Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan adolygu a diweddaru ei Ganllawiau Cymru gyfan ar gyfer y bwlch rhwng presgripsiynau. Mae'r Grŵp bellach wedi diweddaru a chyhoeddi ei ganllawiau sy'n cynnwys yr argymhelliad:

    *Pan fo'n briodol yn glinigol, gellir symud cleifion o fwlch 28 diwrnod rhwng presgripsiynau at fwlch hirach rhwng presgripsiynau, gan ystyried ymatebion posibl, sefydlogrwydd triniaeth, cydymffurfiaeth cleifion a monitro angenrheidiol.*

**Y rheswm dros newid**

5. Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ym Mhrifysgol De Cymru i gynnal adolygiad o lefelau dosbarthu mewn fferyllfeydd cymunedol fel rhan o'r rhaglen diwygio fframwaith contractiol fferylliaeth gymunedol.

6. Nodau'r adolygiad oedd ystyried:

- A oedd hi’n ymarferol lleihau lefelau presgripsiynau mewn gofal sylfaenol yng Nghymru drwy newidiadau ymarferol i drefniadau rhagnodi a dosbarthu; a
- A fyddai newidiadau o’r fath yn rhyddhau amser fferyllwyr i ddarparu gofal uniongyrchol i gleifion.

7. Roedd adolygiad Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi’r farn ei bod yn ddichonol lleihau lefelau presgripsiynau sy’n cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd cymunedol drwy newidiadau ymarferol, ar lefel system i drefniadau rhagnodi a dosbarthu.

8. Gellir dod o hyd i adolygiad Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, ac ymateb Llywodraeth Cymru, yma: Adolygiad o lefelau dosbarthu mewn fferyllfeydd cymunedol: ymateb Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU

9. Bydd y newid yn rhyddhau cryn dipyn o amser fferyllwyr i ddarparu gofal uniongyrchol sy’n canolbwyntio mwy ar gleifion drwy wasanaethau clinigol, gan gefnogi ein dyheadau tymor hwy ar gyfer fferyllfeydd cymunedol i fodloni anghenion pobl Cymru nawr ac yn y dyfodol.

10. Yn ogystal, bydd gweithredu’r newid hwn yn cynnig manteision ar gyfer ymarfer meddygol drwy leihau’r llwyth gwaith gweinyddol sy’n ymwneud â chynhyrchu presgripsiynau rheolaidd. Yn bwysicaf oll, mae bod yn fwy hyblyg er mwyn cydbwyso cyfleustra cleifion yn fwy priodol gyda phriodoldeb clinigol, cost-effeithiolrwydd a diogelwch cleifion, yn debygol o gynnig manteision sylweddol i gleifion.

11. Er y bydd llawer o fanteision yn cael eu gwireddu gyda’r canllawiau newydd hyn mae’n bwysig nodi ei fod yn ôl disgresiwn yr ymarferydd o ran y ffordd orau o ddefnyddio’r hyblygrwydd a ddarperir yn y canllawiau, gan gynnwys p’un a ddylid rhagnodi â bwlch hirach rhwng presgripsiynau. Dylai unrhyw benderfyniad ystyried amgylchiadau pob claf.

**Y camau nesaf**

12. Mae Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan wedi adolygu ei ganllawiau a gyhoeddwyd yn 2013 a bellach wedi cyhoeddi ei ganllawiau sydd wedi’u diweddaru. Mae’r canllawiau sydd wedi’u diweddaru yn disodli’r cyngor blaenorol ac yn cefnogi’r argymhelliad am ddull gweithredu mwy hyblyg ar gyfer bylchau rhwng presgripsiynau.

13. Dylai byrddau iechyd roi gwybod i ymarferwyr cyffredinol o’r newid a gweithio gyda nhw i annog y defnydd o fylchau hirach rhwng presgripsiynau pan fo’n briodol. Bydd gwneud hynny yn fanteisiol i faes ymarfer meddygol, fferyllfeydd cymunedol, a chleifion a’u gofalwyr.